

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 14 Chwefror 2019

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: CAM GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl: Newidiadau i'r Rhaglen Brechu rhag yr Eryr o 1 Ebrill 2019**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol**

**I'w weithredu gan:**

Meddygon Teulu  
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Iechyd  
Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd  
Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y  
Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Brechu yn erbyn Clefydau  
Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Er gwybodaeth i:**

Brif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol  
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau Iechyd  
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Anfonir gan:**

Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw Cyswllt yn Llywodraeth Cymru**

Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [diogelu.iechyd@llyw.cymru](mailto:diogelu.iechyd@llyw.cymru)

Annwyl Gydweithiwr,

## **Y Rhaglen Brechu Rhag yr Eryr**

1. Cyflwynwyd rhaglen frechu genedlaethol rhag yr eryr ar 1 Medi 2013. Ers hynny mae pobl sy'n 70 oed ar 1 Medi ym mhob blwyddyn wedi cael cynnig y brechlyn o dan y rhaglen reolaidd.
2. Cafwyd rhaglen "dal i fyny hefyd" i bobl rhwng 71 a 79 oed.
3. Bydd y rhaglen brechu rhag yr eryr yn dechrau ar 1 Ebrill o bob blwyddyn ac yn para am 12 mis hyd at 31 Mawrth ('y flwyddyn frechu').
4. Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru: hwn
  - yn darparu canllawiau ar gymhwyster ar gyfer y rhaglen brechu rhag yr eryr o fis Ebrill 2019 ac,
  - yn ceisio'ch cefnogaeth wrth fynd ati i hybu'r brechlyn hwn i amddiffyn pobl hŷn yn well trwy wella cyfraddau brechu yng Nghymru.

## **Amllder yr eryr a'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn**

5. Amcangyfrifir bod rhyw 790 i 880 o achosion o'r eryr i bob 100,000 o bobl rhwng 70 a 79 oed yng Nghymru a Lloegr. Mae'r data o astudiaethau gan ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru a Lloegr yn awgrymu bod dros 50,000 o achosion o'r eryr yn digwydd ymhlith pobl 70 oed ac yn hŷn bob blwyddyn, gyda rhyw 4% o'r achosion yn arwain at gymhlethdodau gan gynnwys poen hirdymor (niwralgia ôl-therpetig).
6. Nod y rhaglen brechu genedlaethol rhag yr eryr yw gostwng amllder a difrifoldeb yr eryr ymhlith pobl hŷn. Ar 30 Rhagfyr 2018, roedd 31% o bobl 70 oed yn manteisio ar y brechlyn rhag yr eryr gyda'r cyfraddau brechu yn y byrddau iechyd yn amrywio o 21% i 39%. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn i 68% yn 75 oed. Mae manylion pellach y nifer ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:  
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/43922>
7. O Ebrill 2019 caiff cymhwyster ar gyfer rhaglen brechu rhag yr eryr ei symleiddio. Bydd hyn yn helpu ymdrechion lleol i gyrraedd y grŵp targed. Hoffwn weld gwelliant yn y nifer sy'n manteisio ar y rhaglen ledled Cymru, yn enwedig ymhlith pobl 70 oed a gostyngiad yn yr amrywioldeb sylweddol yn y nifer sy'n manteisio rhwng ardaloedd byrddau iechyd.

## **Cymhwysedd o 1 Ebrill 2019**

8. O 1 Ebrill 2019 ymlaen, cynigir y brechiad rhag yr eryr fel a ganlyn:

## Rhaglen reolaidd

- i unigolion 70 oed. Gellir cynnig y brechiad ar ôl iddynt droi'n 70 oed neu ar ôl hynny ond ddim cyn hynny.

## Rhaglen "dal i fyny"

- i unigolion heb eu brechu yn eu 70au nad ydynt wedi cyrraedd eu penblwydd yn 80 oed eto.

Gan na fydd cymhwysedd yn gysylltiedig bellach ag oedran unigolyn ar 1 Medi, rhaid gofalu peidio â cholli pobl a ddaeth yn gymwys ers 2 Medi 2018 na chawsant gynnig y brechlyn yn y flwyddyn frechu Ebrill 2018 – Mawrth 2019.

9. Nid oes unrhyw ofyniad i feddygfeydd roi systemau galw ac adalw gweithredol ar waith ond byddai'n arfer da i wneud hynny. Dylid rhoi blaenoriaeth i hybu cyfraddau brechu pan ddaw'r claf yn gymwys yn 70 oed.
10. Nid yw'r rhaglen yn cynnig y brechlyn i unigolion 80 oed neu'n hŷn gan fod y brechlyn yn mynd yn llai effeithiol wrth i oedran gynyddu.

## **Unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer y rhaglenni cenedlaethol**

11. Yn dilyn asesiad gan glinigydd cymwysedig addas, gellir cynnig y brechlyn rhag yr eryr i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd am y rhaglen genedlaethol ar ond a fyddai ar eu hennill yn feddygol, er enghraifft y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cynyddu eu risg o'r eryr. Byddwch cystal â nodi na ellir defnyddio'r brechlyn at y diben hwn o'r cyflenwadau canolog a archebir trwy ImmForm ac y dylid ei gael o ffynhonnell wahanol.

## **Cyllid**

12. Mae cyllid ar gyfer y rhaglen gyffredinol eisoes wedi'i drosglwyddo i ddyraniadau craidd y byrddau iechyd.
13. Gwneir dyraniad ariannu 'yn ystod y flwyddyn' i fyrddau iechyd yn 2019 i gynnwys carfan derfynol y rhaglen dal i fyny. Seilir hyn ar y data diweddaraf sydd ar gael am y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn bryd hynny. Daw cyllid i ben wedyn am yr elfen hon ar y rhaglen.

## Trefniadau gwasanaeth

14. Cytunwyd ar y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth â Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru. Bydd y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â Chyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol 2014 yn cael eu diwygio maes o law i adlewyrchu'r newid i'r meini prawf cymhwysedd.
15. Gwneir taliad yn ôl y gyfradd gymwys bresennol mewn perthynas â phob claf cofrestredig sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sydd wedi cael ei frechu rhag yr eryr yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.
16. Mae'r newidiadau i'r cyfarwyddiadau'n golygu na fydd angen y Gwasanaeth Ychwanegol Cenedlaethol (NES) sydd yn ei le ar hyn o bryd ar gyfer y rhaglen dal i fyny o 1 Ebrill.

## Casglu data ar Gyfraddau Brechu

17. Mae'n ofynnol i feddygfeydd ddarparu data i Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ddigonol i arolygu a monitro'r Rhaglen Brechu rhag yr Eryr. Caiff data i fonitro cyfraddau brechu eu casglu'n awtomatig drwy Archwilio plws mewn dull tebyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni imiwneiddio oedolion presennol ac ni chaiff cleifion eu henwi.
18. Er mwyn monitro cyfraddau imiwneiddio'n gywir, mae'n hanfodol bod pob brechlyn rhag yr eryr a roddir yn cael ei gofnodi'n amserol yn system wybodaeth glinigol y Feddygfa gan ddefnyddio'r codau Darllen priodol (neu godau SNOMED CT pan fyddant ar gael yng Nghymru). Bydd disgwyl i unrhyw Feddygfa yng Nghymru sy'n dewis peidio â darparu data ar gyfraddau imiwneiddio i Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ddull electronig awtomatig fynd ati i archwilio system wybodaeth glinigol y Feddygfa er mwyn darparu data cyfatebol.

## Rhagor o wybodaeth

19. Mae canllawiau ynghylch imiwneiddio rhag yr eryr i'w gweld ym Mhennod 28a o *Immunisation against infectious disease* ('y Llyfr Gwyrdd').

<https://www.gov.uk/government/publications/influenza-the-green-book-chapter-28>

20. Mae datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar y brechlyn rhag yr eryr i'w weld yn:

[http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+www.dh.gov.uk/ab/JCVI/DH\\_094744](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+www.dh.gov.uk/ab/JCVI/DH_094744)

21. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

<http://www.publichealthwales.org/vaccines>

<http://www.immunisation.wales.nhs.uk/shingles-vaccination-programme>

[Mewnrawd GIG Cymru'n unig]

Mae'r eryr yn gyfrifol am nifer fawr o achosion o afiachuswydd mewn pobl hŷn. Rydyn ni'n gobeithio y bydd cydweithwyr yn cydnabod y manteision sylweddol y bydd brechlyn rhag yr eryr yn eu cynnig i'w cleifion. Dylai symleiddio'r meini prawf cymhwysedd fod yn well i gleifion a gweithwyr proffesiynol iechyd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gyflenwi'r rhaglen ac am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir



**Dr Frank Atherton**

**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**